

Heddlu Gwent wedi sicrhau cynnydd da ar gyflawni arbedion ar gyfer cyfnod yr adolygiad cynhwysfawr o wariant ond boddhad dioddefwyr yn achosi gofid

Heddiw mae Arolygiaeth Cwnstablïaeth Ei Mawrhydi (HMIC) wedi cyhoeddi adroddiad ar gynnydd Heddlu Gwent i fodloni heriau'r adolygiad cynhwysfawr o wariant 2010.

Yn seiliedig ar y data a ddarparwyd gan yr heddlu, canfu'r HMIC fod:

- Angen i Heddlu Gwent arbed £25 miliwn rhwng Mawrth 2011 a Mawrth 2015. Erbyn gwanwyn 2012, roeddynt wedi cynllunio sut i arbed 95% o'r swm hwn.
- Mae'r heddlu yn bwriadu torri cyfanswm nifer ei weithlu (h.y. swyddogion yr heddlu, staff yr heddlu a swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu) o 380 rhwng Mawrth 2010 a Mawrth 2015.
- Bydd 130 o'r rhain yn swyddi plismyn; mae hyn yn golygu y bydd 9% yn llai o swyddogion yng Ngwent (o gymharu â lleihad o 10% mewn swyddogion ledled Cymru a Lloegr ar y cyfan).
- Mae'r heddlu yn bwriadu cael 78% o'i weithlu mewn rolau blaen y gad erbyn 2015, sy'n gyfran uwch na nifer o heddluoedd eraill.
- Dros yr un cyfnod, bydd y gyfran o swyddogion yr heddlu ar flaen y gad yn parhau i fod yn 91% – un o'r uchaf yn y wlad.
- Mae Heddlu Gwent yn parhau i wthio troseddau i lawr ac mae wedi sicrhau lleihad llawer uwch na'r rhan fwyaf o heddluoedd rhwng Rhagfyr 2010 a Rhagfyr 2011.
- Mae 82% o ddiodefwyr yng Ngwent â'r gwasanaeth cyffredinol a ddarperir gan yr heddlu. Mae hyn yn is na'r ffigwr cenedlaethol.

Meddai Arolygydd Cwnstablïaeth EM ar gyfer y Rhanbarth Gorllewinol, Dru Sharpling:

“Mae gan Heddlu Gwent hanes o leihau costau trwy reolaeth a chynllunio busnes gofalus. Mae hyn wedi eu gosod mewn safle da i fodloni heriau ariannol yr adolygiad gwariant, er y gallai fod angen arbedion atodol os nad yw eu tybiaethau am arian ychwanegol i ddod o'r archebiant y dreth gyngor yn nwy flynedd olaf yr adolygiad gwariant yn dod yn wir.

“Wrth i'r heddlu ddatblygu ei gynlluniau i gau'r bwlch cyllid, dylai barhau i ganolbwyntio ar gynnal y gyfran o'i weithlu mewn rolau i frwydro troseddu. Dylai'r gyfran uchel iawn o swyddogion yr heddlu mewn rolau blaen y gad osod yr heddlu mewn safle da i gynnal ei lefel arbennig o leihad mewn troseddau, a hefyd gyfrannu i lefelau uwch o foddhad dioddefwyr.”

Mae'r adroddiad llawn ar gyfer Heddlu Gwent, ynghyd â'r adolygiad thematig cenedlaethol 'Policing in austerity: One year on', ar gael yn www.hmic.gov.uk

Nodiadau i olygyddion

1. Mae'r adroddiad thematig llawn 'Policing in austerity: One year on' a deunydd ategol ar gael yn www.hmic.gov.uk
2. Gellir dod o hyd i'r adolygiad 'Adapting to Austerity' a gyhoeddwyd yng Ngorffennaf 2011 a'r adroddiadau heddluoedd cysylltiedig yn www.hmic.gov.uk
3. Yn Hydref 2010, cyhoeddodd y llywodraeth y byddai'r cyllid canolog a ddarperir i'r heddlu yn lleihau o 20% yn y pedair blynedd rhwng Mawrth 2011 a Mawrth 2015.
4. Mae'r ffigurau wedi eu talgrynnu (ffigurau ariannol i'r filiwn agosaf a ffigurau gweithlu i'r 10 agosaf) ac mae ffigurau ariannol mewn prisiau arian parod.
5. Am ragor o wybodaeth, neu i ofyn am gyfweiliad, gellir cysylltu â swyddfa'r wasg HMIC yn ystod oriau swyddfa o 8:30am – 5:30pm Dydd Llun i Ddydd Gwener ar 0203 513 0600.
6. Mae Arolygiaeth Cwnstabiliaeth EM (HMIC) yn arolygiaeth annibynnol, yn archwilio plismona er lles y cyhoedd, ac yn archwilio effeithlonrwydd heddluoedd ac awdurdodau i daclo troseddau a therfysgaeth, gwella cyfiawnder troseddol a hybu hyder. Mae HMIC yn archwilio a rheoleiddio'r 43 o heddluoedd yng Nghymru a Lloegr, ynghyd â chyrff plismona pwysig eraill fel yr Asiantaeth Troseddau Cyfundrefnol Dirifol, Gwasanaeth Heddlu gogledd Iwerddon a Heddlu Trafnidiaeth Prydain a HMRC.
7. Llinell swyddfa'r wasg tu allan i oriau swyddfa HMIC ar gyfer ymholiadau brys gan y wasg yw 07836 217 729.
8. Cyflawnodd Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi (HMIC) archwiliad o'r 43 o heddluoedd yng Nghymru a Lloegr yn ystod Gwanwyn 2011, i weld sut maent yn bwriadu bodloni'r her ariannol hon. Pan gyhoeddwyd y canlyniadau yng Ngorffennaf 2011 (chwiliwch am 'Valuing the Police' ar www.hmic.gov.uk), fe ymgwymerom i ddychwelyd flwyddyn yn ddiweddarach i adrodd ar gynnydd, ac i asesu a gafwyd unrhyw effaith ar y gwasanaeth a ddarparwyd i'r cyhoedd.